# Adroddiad Arolygu

**Cylch Bethesda**

**Hen Neuadd Chwaraeon**
**Canolfan Chwaraeon y Barri**
**Heol Colcot**
**Y Barri**
**CF62 8UJ**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

19/7/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at, the Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â Cylch Bethesda

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br><br>Gofal dydd llawn |
| Person cofrestredig | Natalie Kinson |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Mawrth 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn ymgartrefu'n dda ac yn cael llawer o hwyl. Mae eu barn a'u diddordebau'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Caiff y plant amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a gwnânt ddewisiadau ynghylch sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn rhyngweithio'n dda gyda'u ffrindiau ac yn ffurfio perthynas agos â'r staff.

Mae'r staff â'r cymwysterau addas, yn gydwybodol ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn cadw cofnodion effeithiol o gynnydd y plant.

Mae'r amgylchedd yn lân, croesawgar ac yn addas i blant. Mae wedi'i drefnu'n dda i ysgogi a chefnogi chwarae a dysgu'r plant. Mae ystod dda o adnoddau yn hyrwyddo dysgu a datblygiad cyffredinol y plant. Mae'r staff yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas, gan gwblhau asesiadau risg a gwiriadau dyddiol.

Yn gyffredinol, mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwella rhai meysydd o'r arweinyddiaeth a rheolaeth, gan gynnwys rheoli hyfforddiant staff a threfnu dogfennau. Mae'r rhieni yn canmol y lleoliad a'r gofal a gaiff eu plant yn fawr. Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu'n llawn â'r broses arolygu ac yn agored i argymhellion.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus. Gwrandewir arnynt, sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae'n hybu eu hunan-barch. Cânt lawer o gyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau, er enghraifft pa deganau i chwarae â nhw a pha fyrbrydau yr hoffent eu cael. Mae'r plant yn dewis o amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae cyffrous.

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn mwynhau mynychu. Maent yn gwybod y drefn ac yn adnabod yr amgylchedd yn dda iawn, sy'n rhoi ymdeimlad o ddiogelwch a pherthyn iddynt. Mae'r plant yn ffurfio cydberthnasau cariadus â'r staff ac yn gwneud ffrindiau, mae hyn yn eu helpu i ymlacio.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda. Maent yn dechrau rhannu ac yn helpu ei gilydd. Er enghraifft, pasio creonau o wahanol liwiau i'w gilydd. Maent yn dysgu rheoli eu hymddygiad eu hunain ac yn deall y disgwyliadau. Mae'r plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddangos eu gwaith i oedolion. Gwelsom y plant yn ymdawelu'n dda ar gyfer amser cylch, gan ymuno'n fywiog â chaneuon Cymraeg a Saesneg.

Mae'r plant yn dysgu sgiliau hunangymorth ac yn cael llawer o gyfleoedd i gyflawni tasgau'n annibynnol. Mae hyn yn eu paratoi ar gyfer mynychu'r ysgol ac yn datblygu hunanhyder. Cânt eu hannog i dacluso teganau a golchi a sychu eu dwylo'n annibynnol. Mae'r plant yn mwynhau amseroedd byrbryd cymdeithasol ac yn sgwrsio'n hawdd â'u ffrindiau a'r staff.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae gweithdrefnau diogelu clir ar waith sy'n hyrwyddo lles y plant. Fodd bynnag, nid oedd pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant gloywi diogelu digonol. Trafodwyd hyn â'r person cofrestredig a drefnodd hyn ar unwaith. Gwelsom y plant yn mwynhau byrbryd iach o ffrwythau a llysiau, gyda dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed. Mae'r staff yn cofnodi pob damwain, digwyddiad ac anafiadau sy'n bodoli eisoes yn fanwl, ac yn rhannu'r wybodaeth hon â'r rhieni. Cwblheir cofrestrau i ddangos presenoldeb y staff a'r plant yn gywir, sy'n rhoi tystiolaeth y  cyflawnir cymarebau tystiolaeth. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd i sicrhau bod y staff a'r plant yn ymwybodol o sut i adael yr adeilad yn ddiogel.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd garedig, amyneddgar a gofalgar. Maent yn sgwrsio'n naturiol â'r plant i gefnogi eu chwarae a'u dysgu. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant, a'i effaith ar ymddygiad plant. Mae'r polisi rheoli ymddygiad yn canolbwyntio ar ddefnyddio strategaethau cadarnhaol ac mae'r staff yn gweithio yn unol â'r polisi. Gwelsom y staff yn atgoffa'r plant yn ofalus i rannu a chymryd eu tro wrth chwarae. Defnyddiant lawer o ganmoliaeth i annog ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r staff bob amser yn fodelau rôl da.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn arsylwi'n rheolaidd ar chwarae a dysgu'r plant i olrhain eu cynnydd. Mae hyn yn helpu'r staff i gynllunio gweithgareddau i alluogi camau nesaf y plant mewn dysgu a datblygiad. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau a llawer o gyfleoedd ar gyfer chwarae rhydd ar gael sy'n caniatáu i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain, a'u cymell i ddysgu. Mae'r staff yn casglu samplau o waith y plant a ffotograffau ohonynt wrth chwarae i wneud dyddlyfr dysgu ei hun i bob plentyn. Rhoddir y rhain i'r rhieni pan fydd eu plant yn gadael y lleoliad i fynd ymlaen i'r ysgol. Mae'r dyddlyfr yn dangos sut mae'r plant wedi datblygu a'r sgiliau y maent wedi'u cyflawni, gan weithredu fel cofrodd hyfryd i'r rhieni a'r plant.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae’r amgylchedd yn ddiogel, ac yn darparu digonedd o le i'r plant chwarae a dysgu. Mae'r staff yn cloi drysau allanol ac yn cadw cofnod o ymwelwyr. Mae'r staff yn cynnal gwiriadau diogelwch o'r amgylchedd i nodi a, lle bo modd, dileu unrhyw risgiau i ddiogelwch y plant. Mae giât ddiogelwch yn atal y plant rhag mynd i'r gegin heb oruchwyliaeth.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar iawn ac yn addas i blant. Mae'n darparu ardaloedd golau, mawr a chyffrous i’r plant eu harchwilio. Trefnir yr ystafell yn dda i hybu datblygiad y plant. Mae arddangosfeydd wal atyniadol yn cynnwys gwaith celf y plant, sy'n dathlu eu cyflawniadau, gan roi ymdeimlad o falchder a pherthyn iddynt. Nid oes gan y lleoliad ardal yn yr awyr agored, ond dywedodd y person cofrestredig wrthym fod y plant yn cael cyfleoedd i chwarae'n gorfforol fel rhan o'r drefn ddyddiol, a welsom ar y diwrnod.

Mae'r teganau a'r offer yn cael eu glanhau'n rheolaidd, a chaiff teganau eu cylchdroi i gynnig mwy o ddewis ac amrywiaeth i'r plant. Mae ystod eang o adnoddau, fodd bynnag mae adnoddau byd go iawn ac adnoddau wedi'u hailgylchu yn gyfyngedig. Mae nifer priodol o doiledau i'r plant a chyfleusterau newid cewynnau ar gael. Mae'r mannau hyn yn lân ac yn ffres, gyda sebon hylif a thywelion papur yn hygyrch i’r plant.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae datganiad o ddiben clir sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n galluogi rhieni i benderfynu a yw'r lleoliad yn addas ar gyfer eu plentyn. Mae ystod dda o bolisïau a gweithdrefnau yn eu lle, fodd bynnag mae angen diwygio rhai i fod yn benodol i'r lleoliad. Roedd rhywfaint o waith papur yn ymwneud â'r lleoliad yn anhrefnus ac nid oedd yn hawdd i'r staff ddod o hyd iddo'n hawdd. Mae cytundebau’r plant wedi'u cwblhau'n dda ac yn cynnwys y caniatâd angenrheidiol gan y rhieni.

Mae’r arweinwyr yn cynnal adolygiad blynyddol o’r lleoliad ac yn llunio adroddiad ansawdd gofal. Caiff hyn ei lywio gan holiaduron a anfonir i gasglu adborth gan y rhieni a’r plant. Gwelsom holiaduron rhieni wedi'u cwblhau a oedd yn canmol y lleoliad yn fawr. Mae polisi cwynion priodol ar waith pe byddai’r rhieni'n dymuno lleisio mater.

Mae ffeiliau staff o ansawdd da ac mae'r holl wiriadau perthnasol yn cael eu cynnal i sicrhau bod y staff yn addas i weithio gyda phlant. Mae system glir ar waith i sicrhau bod gwiriadau’r staff gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff wedi sefydlu cydberthnasau cadarnhaol â rhieni. Mae’r rhieni yn derbyn adborth cyson ar gynnydd eu plentyn. Datblygir cydberthnasau gwaith buddiol ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol amrywiol sy'n arwain at ganlyniadau da i’r plant.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1. Trefnu gwaith papur i sicrhau bod gan y staff fynediad at ddogfennau perthnasol

A2. Sicrhau bod pob polisi yn benodol i'r lleoliad

A2. Sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant gloywi ar ddiogelu

A3. Darparu mwy o adnoddau byd go iawn ac wedi'u hailgylchu i’r plant

| Crynodeb o'r diffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 21/09/2022